

Cyfenw	Atebion
Enw(au) cyntaf	

Rhif y Ganolfan
-----------------

Rhif yr Ymgeisydd
0



TGAU

3300N10-1



S23-3300N10-1

DYDD MAWRTH, 23 MAI 2023 – BORE

**MATHEMATEG**  
**UNED 1: HEB GYFRIFIANNELL**  
**HAEN SYLFAENOL**

1 awr 30 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Ni allwch chi ddefnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.  
Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen ychwanegol.

Cymerwch  $\pi$  fel 3.14.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dylech chi roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn 6, bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.


I'r Arholwr yn Unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	5	
2.	2	
3.	2	
4.	4	
5.	2	
6.	6	
7.	2	
8.	2	
9.	2	
10.	5	
11.	3	
12.	2	
13.	4	
14.	2	
15.	3	
16.	3	
17.	3	
18.	5	
19.	6	
20.	2	
Cyfanswm	65	



JUN233300N10101

## Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

$$\text{Arwynebedd trapesiwm} = \frac{1}{2}(a + b)h$$



1. (a) Ysgrifennwch y rhif chwe deg mil a phedwar deg tri mewn ffigurau. [1]

60043

- (b) Ysgrifennwch beth yw gwerth y 7 yn y rhif 137520. [1]

saith mi

- (c) Rhannwch 504 ag 8. [1]

$$\begin{array}{r} 063 \\ 8 \overline{) 504} \end{array}$$

Ateb: 63

- (ch) Tynnwch 394 o 800. [1]

$$\begin{array}{r} 79 \\ \cancel{800} \\ - 394 \\ \hline 406 \end{array}$$


- (d) Lluoswch 93 â 7. [1]

$$\begin{array}{r} 93 \\ \times 7 \\ \hline 651 \\ 2 \end{array}$$




2. Tywyllwch y nifer lleiaf o sgwariau sydd eu hangen i wneud  $AB$  yn llinell cymesuredd. [2]

Arholwr  
yn unig




3. (a) Mesurwch ac ysgrifennwch beth yw maint ongl  $y$ . [1]



$$y = 137^\circ$$

- (b) Tynnwch linell drwy'r pwynt  $C$  sy'n berpendicwlar i  $AB$ . [1]



4. (a) Mae Billy yn meddwl am rif.  
Mae Billy yn haneru y rhif.  
Ei ateb yw 58.

Pa rif mae Billy yn meddwl amdano?

$$\begin{array}{r} 58 \\ \times 2 \\ \hline 116 \\ \hline \end{array}$$

[1]

- (b) Mae Siân yn meddwl am rif gwahanol.  
Mae Siân yn sgwario'r rhif.  
Ei hateb yw 9.

Pa rif mae Siân yn meddwl amdano?

$$\underline{\underline{3}}$$

$$(Mae 3^2 = 3 \times 3 = 9)$$

[1]

- (c) Cyfrifwch 40% o 120.

$$\begin{array}{l} 10\% \\ 40\% \\ 120 \div 10 = 12 \\ \quad 12 \\ \quad \times 4 \\ \quad \hline \quad 48 \\ \quad \hline \end{array}$$

[2]

5. (a) Pa un o'r canlynol sy'n hafal i 0.5 kg?  
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

50 mg

500 g

500 mg

5 mg

50 g

[1]

- (b) Pa un o'r canlynol sy'n hafal i 700 cm?  
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

7 m

7 km

0.7 m

0.07 km

70 m

[1]



6. Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.

Mae Rhoden A a Rhoden B wedi'u lluniadu'n fanwl gywir isod.

Rhoden A 

Rhoden B 

Mae tair Rhoden A a phedair Rhoden B yn cael eu gosod benben (*end to end*) mewn un llinell syth.

Beth yw cyfanswm hyd y rhodenni hyn?  
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[4 + 2 TCY]


SWM	EGLURHAD
5cm	Hyd Rhoden A
2cm	Hyd Rhoden B
$3 \times 5 + 4 \times 2$	Tair Rhoden A a Phedair Rhoden B
= 15 + 8	
= 23cm	Casgliad : Cyfanswm hyd
	y rhodenni yw <u>23cm</u>



7. Mae bag gan Catrin sy'n cynnwys dim ond afalau, bananas a lemonau.  
Mae cyfanswm o 20 darn o ffrwyth ganddi yn ei bag.  
Mae Catrin yn dewis un darn o ffrwyth ar hap o'r bag.

Mae'r tebygolrwydd ei bod hi'n dewis pob math (*each type*) o ffrwyth yn cael ei ddangos ar y raddfa debygolrwydd isod, lle mae

- A yn cynrychioli afal
- B yn cynrychioli banana
- L yn cynrychioli lemon.



Faint o afalau sydd gan Catrin yn ei bag?

[2]

6

8. (a) Cost un llyfr yw £ $m$ .  
Beth yw cost 15 llyfr mewn punnoedd (£)?

[1]

£15m


- (b) Mae gan leuan 20 oren.  
Mae e'n rhoi  $k$  oren i bobl eraill.  
Faint o orennau sydd gan leuan nawr?

[1]

20 - k oren



9.



*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*


Hyd y blwch hwn yw 5 cm, y lled yw 3 cm a'r uchder yw 4 cm.

Does **dim** clawr (*lid*) ar y blwch.

Cwblhewch rwyd fanwl gywir o'r blwch ar y grid sgwariau centimetr isod.

Mae'r sylfaen wedi'i lluniadu i chi.

[2]




10. Petryal yw  $ABCD$ .

$A$  yw'r pwynt  $(3, 4)$ ,  $B$  yw'r pwynt  $(-5, 4)$ ,  $C$  yw'r pwynt  $(-5, -2)$  a  $D$  yw'r pwynt  $(3, -2)$ .

Beth yw perimedr  $ABCD$ ?

Gallwch chi ddefnyddio'r grid sgwariau centimetr isod i'ch helpu.

[5]



$$6 + 8 + 6 + 8$$

$$= 14 + 14$$

$$= 28$$

Perimedr  $ABCD = 28$  cm




11. Ysgrifennwch  $\frac{2}{5}$ , 9% a 0.3 yn y drefn esgynnol (*ascending*).

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.


[3]

$$\frac{2}{5} = \frac{4}{10} = 0.4$$

$$9\% = 0.09$$



12. Arwynebedd petryal yw  $80 \text{ cm}^2$ .



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Mae hyd y petryal yn 5 gwaith cymaint â'r lled.

Cyfrifwch hyd a lled y petryal.

[2]

Cynnig a gwella :

$x$	$5x$	Hyd x Lled
1	5	5
2	10	20
3	15	45
4	20	80 ✓

Dabys Hafaliad:

$$\text{Arwynebedd} = \text{Hyd} \times \text{Lled}$$

$$80 = 5x \times x^2$$

$$80 = 5x^2$$

$$16 = x^2$$

$$\pm\sqrt{16} = x$$

$$x = \pm 4 \text{ cm}$$

$$\text{Dewis } x = 4 \text{ cm}$$

Hyd = 20 cm

Lled = 4 cm



13. (a) Datrysych yr hafaliad  $3x - 10 = 17$ . [2]

$$3x = 17 + 10$$

$$3x = 27$$

$$\underline{x = 9}$$

- (b) Symleiddiwch  $\underline{6f} - 4g + \underline{2f} - 9g$ . [2]

$$= \underline{8f - 13g}$$

14. (a) Pa un o'r canlynol sydd agosaf, o ran màs, at 5 kg?  
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir. [1]

7 lb

11 lb

15 lb

19 lb

23 lb

$$1 \text{ Kg} \approx 2.2 \text{ pwys}$$

$$10 \text{ Kg} \approx 22 \text{ pwys}$$

$$5 \text{ Kg} \approx 11 \text{ pwys}$$

- (b) Pa un o'r canlynol sydd agosaf, o ran cyfaint, at 100 litr?  
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir. [1]

100 peint

125 peint

150 peint

175 peint

200 peint

$$1 \text{ libr} \approx 1.75 \text{ peint}$$

$$100 \text{ libr} \approx 175 \text{ peint}$$



15. Mae Rhian yn  $n$  blwydd oed.  
Mae Samir 7 mlynedd yn fwy ifanc na Rhian.  
Mae oed Nigel ddwywaith cymaint ag oed Samir.

Ysgrifennwch fynegiad, yn nhermau  $n$ , ar gyfer oed Nigel.

[3]

Rhian  $n$   
 Samir  $n - 7$   
 Nigel  $2(n - 7)$  [neu  $2n - 14$ ]

Oed Nigel  $2(n - 7)$

16. Cymedr pedwar rhif yw 7.

- (a) Beth yw cyfanswm y pedwar rhif?

[1]

$$7 \times 4 = \underline{\underline{28}}$$

- (b) Darganfyddwch set o bedwar rhif fel bod:


- eu cymedr yn 7
- yr amrediad yn 6.

Ysgrifennwch y pedwar rhif yn y blychau isod.


[2]

Pedwar rhif efo cyfanswm 28 a'r  
gwahaniaeth rhwng mwyaf a lleiaf yn 6.

$7, 7, 7, 7$  efo cyfanswm 28.



17.



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

Darganfyddwch beth yw maint pob un o'r onglau  $a$ ,  $b$  ac  $c$ .


$$\begin{array}{r} 71 \\ 180 \\ - 63 \\ \hline 117 \end{array}$$

[3]


$a = 63^\circ$        $b = 117^\circ$        $c = 117^\circ$



18. Mae dau droellwr **teg** yn cael eu dangos isod.



Troellwr A



Troellwr B

Mewn gêm, mae angen adio'r rhifau sy'n cael eu dangos gan y ddau bwyntydd (*pointers*).  
Yn y diagram, y sgôr fyddai  $2 + 3 = 5$ .

Mae 6 neu fwy yn sgôr ennill (*winning score*).

Sawl sgôr ennill byddech chi'n ei disgwyl pan fydd y gêm yn cael ei chwarae 60 gwaith?  
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [5]

(B)

	1	2	3	4
1	2	3	4	5
(A) 2	3	4	5	6
3	4	5	6	7

Diagram Gofod Samp)  
iddangos yr holl  
bosibiliadau.

Tebygolrwydd o gael sgôr ennill (6 neu fwy)

$$= \frac{3}{12}$$

$$= \frac{1}{4}$$


Os yw'r gêm yn cael ei chwarae 60 gwaith,  
disgwylir sgôr ennill  $\frac{1}{4}$  o'r amser, sef 15 gwaith.  
(Mae  $60 \div 4 = 15$ .)



19. (a) Mynegwch 48 fel canran o 400. [2]

$$\frac{48}{400} = \frac{12}{100} = 12\%$$

- (b) Rhannwch £45 yn ôl y gymhareb 8 : 1. [2]



£ 40 a £ 5


- (c) Mynegwch
- $1 - \frac{1}{2^3}$
- fel ffraciwn sengl yn y ffurf
- $\frac{a}{b}$
- , lle mae
- $a$
- a
- $b$
- yn gyfanrifau. [2]

$$1 - \frac{1}{2^3} = 1 - \frac{1}{8} = \frac{8}{8} - \frac{1}{8} = \frac{7}{8}$$

Ateb =  $\frac{7}{8}$



20. Cylchdrowch y siâp sy'n cael ei ddangos isod drwy  $90^\circ$  yn wrthglocwedd o amgylch y tarddbwynt. [2]



DIWEDD Y PAPUR





# **TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU  
AR Y DUDALEN HON**



**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU  
AR Y DUDALEN HON**



**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU**  
**AR Y DUDALEN HON**

